

PRIFYSGOL BANGOR**PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH**

Cyfarfod: 20 Chwefror 2009

Preseanol: Dr A R Beaumont (yn y Gadair), Miss S Barnes, Mr J East, Mrs L Fowlie, Mr J Jackson, Yr Athro M Kalaji, Mrs L Meadows, Mrs A Parry, Mr J Patton, Ms C Monks, Miss E Riches, Dr D M Roberts, Mr E W. Roberts, Dr G Roberts, Mr M West, Mr G W. Jones (Ysgrifennydd).

Ymddiheuriadau: Mr R Behi, Dr I Ap-Dewi, Mr I Connor, Mr H Ellis, Mr D N Fordham, Mr M Goodwin, Dr J Latchford, Dr G Clarke, Dr D Wright, Mr S Roberts.

312. COFNODION

Cymerwyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2008, wedi'u darllen, eu cadarnhau a'u llofnodi.

313. MATERION YN CODI**a) Cofnod 304 (a) Rheoli Asbestos:**

Adroddwyd bod Ystadau a Chyfleusterau wedi penodi Rheolwr Asbestos dros dro hyd nes y penodir Rheolwr Asbestos parhaol. Ar hyn o bryd, mae'r Arolwg Asbestos yn mynd trwy'r drefn Sicrhau Ansawdd, a bwriedir lansio Cofrestr Lawn y Brifysgol ar Asbestos ym Mawrth/ Ebrill 2009. Ar ben hynny, trefnwyd Hyfforddiant Gloywi ar Asbestos ar gyfer Staff Cynnal a Chontractwyr Ystadau a Chyfleusterau.

b) Cofnod 304 (c) Undeb y Myfyrwyr:

Adroddwyd bod Cynllun Gweithredu Archwilio Undeb y Myfyrwyr wedi'i lunio.

c) Cofnod 304 (d), Profi Offer Symudol:

Adroddwyd bod Consortiwm Prynu – Prifysgolion y Gogledd-Orllewin wedi nodi dau gontractwr dewisol o ran profi offer symudol. Ceir manylion oddi wrth y Swyddog Prynu oddi mewn i'r Adran Gyllid.

ch) Cofnod 304 (e), Gwasanaethau Cwnsela Staff.

Adroddwyd mai'r Rhwydwaith Cynhalwyr Staff (NOSS) sydd wedi'i benodi'n ddarparwyr newydd Gwasanaeth Cwnsela Staff y Brifysgol.

d) Cofnod 307(ii), Adroddiad ar Ddigwyddiad.

Nodwyd na ddilynodd Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y digwyddiad ynglŷn â'r gollyngiad nwy.

314.**YR IS-BWYLLGOR IECHYD, DIOGELWCH A LLES MYFYRWYR**

Derbyniwyd adroddiad gan yr Is-Bwyllgor a nodwyd, yn benodol, yr eitemau isod:

- i. Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r anhawster i weithredu'r gwaharddiad 5-medr ar ysmegu, diffyg arwyddion dim ysmegu, a'r ffaith na chafwyd gwared â blychau llwch o rai mynedfeydd.
- ii. Cynhaliwyd arolwg Cyfleusterau Beicio, yn arolygu'r graddau y mae'r isadeiledd preseanol, e.e. llwybrau beicio, yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno beicio. Dilynir hwn

ymhellach ac ystyrir materion cysylltiedig, yn cynnwys cyfleusterau cawod a diogelwch y rhai sy'n dymuno beicio.

- iii. Barnwyd bod yr Ymgyrch Ymwybyddiaeth Alcohol, a oedd wedi'i chefnogi gan amryw o grwpiau, yn llwyddiant yn gyffredinol.
- iv. Nodwyd bod hyfforddiant ar gamddefnyddio sylweddau ac alcohol i'w drefnu gan Grŵp Gogledd Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau ac Alcohol. Gobeithid y byddai hyfforddi staff yn gymorth i baratoi dulliau gweithredu newydd i staff ar gyffuriau ac alcohol.
- v. Gofynnwyd am fwy o gynrychiolwyr ar yr Is-Bwyllgor o blith y myfyrwyr.
- vi. Mae'r Uwch Gofrestrydd Cynorthwyol wedi cael gwahoddiad i adrodd ar y Strategaeth Chwaraeon a'i thrafod yn y cyfarfod nesaf, gyda golwg ar hyrwyddo mwy o weithio ar y cyd.

Yna, cafwyd trafodaeth ar yr anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Polisi Dim Smygu. Wedi ystyriaeth briodol, **cytunwyd** i arbrofi â gwahanol fentrau i wella'r gweithrediad, ac i ofyn am i'r Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch ystyried y mater yn fwy manwl ac adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Pwysleisiwyd bod y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch ac Undeb y Myfyrwyr wrthi'n gweithio ar ymgyrch ar y cyd, yn gysylltiedig â Diwrnod Cenedlaethol Dim Ysmygu ar 11 Mawrth. Roedd y Pwyllgor yn llwyr gefnogol i'r fenter.

Croesawodd y Pwyllgor y penderfyniad i gynyddu cynrychiolaeth y myfyrwyr ar yr Is-Bwyllgor a'i gefnogi, ac felly hefyd y dymuniad i weithio ar wella'r Strategaeth newydd ar Chwaraeon.

315. IS-BWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH CEMEGOL A BIOLEGOL

Derbyniwyd adroddiad gan yr Is-Bwyllgor a nodwyd, yn benodol, yr eitemau isod:

- i. Mae'r Polisi a'r dulliau gweithredu yng nghyswllt cael gwared â gwastraff cemegol, clinigol a biolegol i'w harolygu.
- ii. Roedd yr Is-Bwyllgor wedi ystyried y modd y mae'r Brifysgol yn rheoli risgiau Legionella o fewn gwasanaethau adeiladau, a chafodd sicrwydd fod gan yr Adran Ystadau a Chyfleusterau systemau cadarn.
- iii. Mae Archwiliad ar Fio-Beryglon i'w gynnal ym Mawrth / Ebrill 2009.
- iv. Mae angen mwy o hyfforddiant strwythuredig ar gyfer staff a chontractwyr Ystadau a Chyfleusterau, er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r peryglon a allai fod yn bresennol o fewn labordai.
- v. Mae angen system ddiwygiedig i ganiatáu mynediad i labordai ar gyfer staff y tu allan i'r gwyddorau.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chanmol, yn benodol, y cynnydd ar ymdrin â goblygiadau deddfwriaeth REACH o fewn labordai dysgu.

Cwestiynodd y Pwyllgor y system bresennol ar gyfer profi riliau pibellau diffodd tân am legionella. Tynnwyd sylw at y ffaith fod y mater hefyd wedi'i chodi gan Archwiliwr

Yswiriant y Brifysgol, a'i fod wedyn wedi'i drosglwyddo i Ystadau a Chyfleusterau weithredu arno.

316. **ADRODDIAD Y GRŴP TASG GWEITHREDU AR DDIOGELWCH**

Adroddwyd bod y Grŵp Tasg wedi cyfarfod ar dri achlysur ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Tynnwyd y materion isod i sylw'r pwyllgor.

- i. Mae datblygiad Strategaeth Weithio Gadarnhaol a mentrau cysylltiedig yn parhau.
- ii. Roedd adroddiad ar Reoli Absenoldeb Staff wedi'i ystyried, a nodwyd yn benodol fod absenoldeb staff dros dymor hir wedi lleihau'n sylweddol ers y 12 mis diwethaf. Canmolwyd y gwaith a'r ymdrech yn y maes hwn yn uchel.
- iii. Yn dilyn yr Arolygon ar Straen a gynhaliwyd yn 2006 a 2007, bu Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn gweithio ar y cyd er mwyn nodi pa gamau y gellid eu cymryd i roi sylw i'r materion a godwyd, ac mae nifer o fentrau, yn benodol hyfforddi, wedi cychwyn. Symudir ymlaen ynglŷn â hyn yn unol â strategaeth Gweithio Gyda'n Gilydd.
- iv. Mae'r Grŵp Tasg hefyd wedi ystyried eitemau megis diogelwch cerddwyr o gwmpas mynedfeydd meysydd parcio a darpariaethau o Ddŵr Yfed ar draws yr ystad.

317. **ADRODDIAD Y GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH**

Cyflwynwyd Adroddiad, a nodwyd y materion isod:

- i. Cychwynnodd Sialens Colli Pwysau 2009 yn Ionawr, wrth i 67 o bobl gofrestru.
- ii. Paratowyd dadansoddiad cost-budd sy'n ceisio cyllid ar gyfer staff sydd angen cymorth ffisiotherapi.
- iii. Cynhaliwyd cyfarfod â Meddygon Teulu lleol er mwyn creu cysylltiad agosach ac i'w hysbysu am fentrau'r Brifysgol ar hybu iechyd.
- iv. Mae mwy o ddigwyddiadau hybu iechyd ar y gweill ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol Dim Smygu, ac mae archwiliad o sgriniau arddangos i'w gynnal cyn hir.
- v. Bydd archwiliadau Adrannol / Colegol yn ail-gychwyn ym mis Mawrth ar ôl i becyn archwilio newydd gael ei baratoi ar sail BS OHSAS 18001. Mae archwiliadau ar themâu yn parhau.
- vi. Ar hyn o bryd, cynhelir Archwiliadau ar Themâu yn ymwneud ag agweddau Teithiau Tramor, Diogelwch Cerddwyr a Lefelau Goleuo ar draws yr ystâd ar iechyd a diogelwch.
- vii. Mae arweinlyfr staff newydd ar gyfer Mamau Beichiog a Mamau Newydd wedi'i baratoi. Mae Llawlyfr y Staff ar Iechyd a Diogelwch hefyd i'w adnewyddu.
- viii. Mae gwaith ar droed i nodi iechyd a diogelwch yng nghyswllt 'gweithwyr tawel' e.e. Diogelwch, Gwaith Cynnal a Staff Domestig. Dylai'r fenter hon fod yn gymorth i nodi beth yw eu hanghenion, y problemau a wynebant, sut y gellir ateb eu hanghenion a lleihau risgiau.

318. ADRODDIADAU ARCHWILIADAU AC AROLYGIADAU

Cyflwynwyd adroddiad ar yr Archwiliad a gwblhawyd yn ddiweddar ar ‘Systemau Argyfwng’, a nodwyd y bydd yr Adroddiad llawn ar gael ar-lein.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad, a phwysleisiwyd bod Ystadau a Chyfleusterau wedi creu Cynllun Gweithredu i roi sylw i eitemau blaenoriaeth.

319. ADRODDIAD AR YR WYTHNOS LES

Adroddwyd bod 115 o staff wedi cymryd rhan yn y Diwrnod Lles ar 12 Ionawr 2009, a bod 151 o weithwyr eraill wedi ymuno â gweithgareddau lles yn ystod yr wythnos. Nodwyd i'r ymateb i'r Digwyddiad fod yn gadarnhaol iawn, ond mynegwyd siom ynglŷn â'r nifer a gymerodd ran.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chanmol pawb a fu'n gysylltiedig â threfnu ymgyrch o safon uchel. Wedi ystyriaeth briodol, cefnogwyd yr awgrym y dylid addasu ymgyrchoedd yn y dyfodol ar gyfer ‘cynulleidfa’ benodol a'u lleoli mewn mannau allweddol ar draws safleoedd y Brifysgol.

320. DIWYGIO'R POLISI IECHYD A DIOGELWCH, 2009

Adroddwyd bod arolwg llawn ar Bolisi'r Brifysgol ar Iechyd a Diogelwch i'w gynnal, a gofynnwyd i'r Pwyllgor anfon sylwadau ymlaen ar y Polisi presennol i'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch.

Nodwyd y dylai diwygiad drafft o'r Polisi diwygiedig fod yn barod i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch nesaf ym Mai ar gyfer ystyriaeth ddechreuol.

321. UNRHYW FATERION ERAILL**i. Archwiliad Ansawdd y Pwyllgor**

Dosbarthwyd holiadur yn ceisio barn yr aelodau ynglŷn ag effeithiolrwydd a gwerth y Pwyllgor, a chynnwys sylw at y ffaith y dylid anfon yr holiadur yn ôl i'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch.